Ysgol Gyfun Garth Olwg

Pennaeth / Head Teacher
Mrs. A. Williams B.A., C.P.C.P

Campws Cymuned Gartholwg, Y Brif Ffordd / Main Road,
Pentre'r Eglwys, Pontypridd, CF38 1DX

☎ **01443 219580** 🖷 **01443 219596**
gweinyddol@campwsgartholwg.org.uk
www.gartholwg.co.uk

Gorffennaf, 2014

Annwyl Riant / Warchodwr,

A hithau'n prysur agosáu at ddiwedd y flwyddyn hoffwn ddiolch yn fawr i chi am bob cefnogaeth yn ystod y flwyddyn.

Dyma'r cyfle felly i ail-gyflwyno'r canllawiau a gofynnaf yn garedig i chi ddarllen rhain yn ofalus ar gyfer gwisg a chyfarpar ysgol cyn i chi fynd ati i brynu'r pethau hynny.

Gwelwyd peth dirywiad yn safonau ymddangosiad rhai o'n disgyblion yn ystod y tymor hwn. O fis Medi byddwn yn sicrhau bod pob disgybl yn dilyn y canllawiau amgaeedig.

Ein bwriad wrth ail-gyflwyno'r canllawiau yw cefnogi'n disgyblion a'u rhieni ac osgoi unrhyw wrthdaro dianghenraid allai godi yn sgil ffonau symudol/gwisg ysgol anaddas a.y.b. Rydym yn ffortunus iawn i gael lefel uchel o gefnogaeth gan ein rhieni a hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i chi am gydweithio gyda ni i sicrhau bod ein pobl ifanc yn hapus ac yn llwyddiannus.

Yn gywir,

Mrs. A. Williams
Pennaeth